BLAENRAGLEN BUSNES CABINET ARFAETHEDIG

CYFNOD: 1 MEDI 2019 – CHWEFROR 2020

CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU DISGWYLIEDIG FYDD YN CAEL EU GWNEUD MEWN CYFARFODYDD CABINET

Cysylltwch â'r Swyddfa Cefnogi'r Cabinet (2087 2396) os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth

Teitl yr Adroddiad	Crynodeb o'r Materion a'r Argymhelliad Arfaethedig	Statws goleuadau traffig craffu	Ymgynghoreion	Pwy fydd yn gwneud y Penderfyniad
Medi 2019				
Arweinydd				
Aelodau Cabinet Cynorthwyol	Penodi Aelodau Cabinet Cynorthwyol	Green/Gwyrdd		Cabinet
Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd				
Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (BRED	Mae dyletswydd statudol newydd ar gyrff cyhoeddus megis Cyngor Caerdydd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn ôl y ddyletswydd newydd hon rhaid i gyrff cyhoeddus *'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth'* wrth arfer eu swyddogaethau, a hynny wrth *'hyrwyddo gwydnwch ecosystemau'*. Enw'r ddyletswydd hon yw Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau neu 'BRED' yn gryno (o'r Saesneg). I helpu'r cyrff i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae'r Ddeddf Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Caerdydd baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi sut y mae'n cynnig cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd hon. Cyfeirir ato fel y 'Blaengynllun BRED'. Y canllaw presennol gan Lywodraeth Cymru yw nad oes angen i'r Blaengynllun hwn fod yn ddogfen ar wahân, ond yn hytrach gellir ei ymgorffori mewn cynlluniau neu strategaethau eraill. Yn dilyn hyn, bydd rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad yn 2019 yn nodi'r hyn a wnaed i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.	Amber/Amber		Cabinet
Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad				
Tendr i gyflenwi hylif tanwydd i Gaerdydd	Cynnal tendr i gaffael hylif tanwydd (disel) o lot 1 fframwaith y GCC. Gwerth y cytundeb yw oddeutu 8 miliwn (2 filiwn y flwyddyn)	Green/Gwyrdd		Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
Perfformiad Ch1	Ystyried gwybodaeth Perfformiad Ch1 ar gyfer 2019/20	Green/Gwyrdd		Cabinet
Monitro Cyllideb Mis 4	Derbyn y wybodaeth monitro cyllideb ar gyfer mis 4 o 2019/20	Green?Gwyrdd		Cabinet

Tai a Chymunedau

Strategaeth y Cyngor i ddarparu'r cynllun prynu'n ôl.	Cymeradwyo'r rhaglen ddiweddaraf a gofynion cyllideb i brynu eiddo'n ôl o'r farchnad ar gyfer darpariaeth tai'r Cyngor.	Green?Gwyrdd		Cabinet

Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth

Polisi Enwi Strydoedd	Mae Polisi Enwi Strydoedd i gynnig cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr a pherchnogion eiddo presennol, yn nodi sut mae'r Cyngor yn rheoli enwi a rhifo strydoedd ac eiddo dan ddarpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 - Adrannau 17 i 19. Yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i Safonau'r Gymraeg, mae ystyriaethau pwysig o ran y Gymraeg mewn perthynas ag enwau stryd newydd. Y polisi a nodir yn y ddogfen yw y dylid mabwysiadu enw Cymraeg ar gyfer enwau strydoedd newydd sy'n "gyson â threftadaeth leol a hanes yr ardal". Mae hyn yn dileu'r angen am gyfieithiadau Saesneg i Gymraeg ar gyfer enwau strydoedd. Mae'r polisi hefyd yn nodi'r gofynion corfforaethol o amgylch y Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol, sef y brif gofrestr cyfeiriadau a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Cafodd y Polisi Enwi Strydoedd Drafft ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad ym mis Tachwedd. Derbyniodd yr ymgynghoriad cyhoeddus 2,248 o ymatebion.	Amber/Amber		Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
Hydref 2019				
Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd				
Ymateb y Cabinet i'r Adroddiad Craffu Amgylcheddol o'r enw 'Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd'	Bydd yr adroddiad yn cynnwys ymateb y Cabinet i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol o'r enw 'Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd'	Green/Gwyrdd		Cabinet
Cyflwyno'r gwasanaeth casglu gwydr ar wahân yn y dyfodol	Diweddaru'r Cabinet ar gynnydd y peilot casglu gwydr ar wahân, ac argymell estyniad dinas gyfan i'r gwasanaeth ailgylchu. Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau ac adborth o'r peilot ac hefyd y cynnig i'w estyn a'r amserlen.	Amber/Ambr		Cabinet
Diwylliant a Hamdden				
Strategaeth Gerddoriaeth Caerdydd	Bydd yr adroddiad yn cytuno ar y camau nesaf ar gyfer sefydlu Bwrdd Strategaeth Gerddoriaeth Caerdydd i oruchwylio'r gwaith o roi'r Strategaeth Gerddoriaeth ar waith	Amber/Ambr		Cabinet
Y Theatr Newydd	Nodi prif bwyntiau dull newydd o weithredu'r Theatr Newydd.	Amber/Ambr		Cabinet
Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau				
Gweledigaeth a Strategaeth Caerdydd 2030	Cafodd y strategaeth gyfredol ar gyfer addysg a dysgu yng Nghaerdydd ei lansio ym mis Mehefin 2016: 'Caerdydd 2020'. Mae'r cyd-ymrwymiad i wella addysg yng Nghaerdydd dros y pum mlynedd diwethaf wedi cael effaith sylweddol.	Green/Gwyrdd		Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	Dros y 10 mlynedd nesaf tan 2030 bydd angen i ni adeiladu ar y gwaith hwn a datblygu dulliau newydd i wireddu potensial llawn y system addysg yng Nghaerdydd erbyn 2030. Bydd gweledigaeth a strategaeth Caerdydd 2030 yn nodi'r uchelgais hwn a'r golau i'w cyflawni o ran gwireddu hynny.			
Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad				
Newid Fflyd o ran Cerbydau Sbwriel a Chodi	Cytuno ar y llwybr cyllid gofynnol a'r cynllun newid fflyd ar gyfer Fflyd Cerbydau Sbwriel a Llwytho Rheoli Gwastraff. Gwerth contract tua £11miliwn.	Amber/Amber		Cabinet
Buddsoddi a Datblygu				
Cyflwyno Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd newydd	Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet am Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd.	Amber/Amber		Cabinet
Pentref Chwaraeon	Bydd yr adroddiad yn rhoi briff i'r Cabinet ar gynnydd Datblygiad y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol a'r model darparu a gynigir ar gyfer cam 2 datblygiad y safle.	Amber/Amber		Cabinet
Arena Dan Do	Er mwyn gwthio cynllun yr Arena Dan Do yn ei flaen, mae angen cymeradwyaeth i gael y budd tir priodol y gefnogi'r datblygiad.	Amber/Amber		Cabinet
Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth				
Trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd	Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (CDLl) ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ar 28 Ionawr 2016. Yn rhan o'r broses cynllun datblygu statudol mae angen i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis	Green/Gwyrdd		Cabinet Cyngor

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	Tachwedd bob blwyddyn. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r diben, y prif ganfyddiadau a chanlyniadau'r ail AMB, a cheisio cymeradwyaeth i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2019.			
Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Ymgynghoriad Drafft	Ymgynghorwyd â'r Cyngor ar ymgynghoriad drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth ofodol i Gymru dros y cyfnod 2020 i 2040 ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sylwadau'r Cyngor ar yr ymgynghoriad drafft ac mae'n rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Tachwedd 2019.	Green/Gwyrdd		Cabinet
Rheoli Ansawdd Aer Lleol - Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd Ansawdd Aer	Dan Adran 82 Deddf Amgylchedd 1995 mae gan bob awdurdod lleol rwymedigaeth i adolygu ac asesu ansawdd aer yn eu hardaloedd yn rheolaidd, a phennu p'un a yw amcanion ansawdd aer yn debygol o gael eu cyflawni ai peidio. Fe wnaeth yr adroddiad hwn fodloni'r meini prawf uchod gan archwilio canlyniadau'r broses monitro ansawdd aer a wnaed ledled Caerdydd yn ystod 2018..	Amber/Ambr		Cabinet
Papur Gwyn Trafnidiaeth ac Aer Glân	Datblygu Papur Gwyn drafft a lunnir gan yr ymgynghoriad Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân a gynhaliwyd yn nhymor y Gwanwyn 2018. Bydd y Papur Gwyn yn cynnig gweledigaeth hir dymor i rwydwaith trafnidiaeth y ddinas, yn alinio'n agos â'r rhaglen waith aer glân barhaus y mae'r Cyngor yn ei chynnal gyda Llywodraeth Cymru.	Amber/Ambr		Cabinet
Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2018/19	Ym mis Ebrill 2015 llofnododd Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg Gytundeb Cydweithio ar gyfer darparu Gwasanaethau rheoliadol ar draws y tair ardal. Yn unol â Chymal 5.1 y Cytundeb Cydweithio, mae gofyn i'r SRS gynhyrchu adroddiad blynyddol ar berfformiad gweithredol ac	Green/Gwyrdd		Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	ariannol y gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn flaenorol.			

Tachwedd 2019

Plant a Theuluoedd

Gwasanaethau Plant yn comisiynu'r Strategaeth Leoli	Mae'r strategaeth leoli'n nodi sut bydd Caerdydd yn bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal i'w galluogi nhw i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl drwy gynnig lleoliadau cost-effeithiol o safon, pan fo angen i Gyngor Caerdydd ofalu am blant.	Amber/Ambr		Cabinet

Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd

Strategaeth Fwyd	Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Fwyd i'r Cyngor. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd ledled y ddinas ar yr agenda bwyd a statws presennol Caerdydd fel Dinas Fwyd Gynaliadwy Efydd. Ar hyn o bryd mae Caerdydd yn gweithio at gael statws Arian ac mae ganddi nod o geisio bod yn ddinas Aur yn y tymor canolig. Bydd strategaeth y Cyngor yn ystyried mynediad at fwyd da i bawb, bwyd fel gyrrwr llwyddiant, manteisio ar dyfu'n lleol a systemau bwyd clyfar..	Amber/Ambr		Cabinet

Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Adroddiad Canol y Flwyddyn Rheoli'r Trysorlys	Hysbysu aelodau adran Rheoli'r Trysorlys y Cyngor am weithgareddau ers 1 Ebrill 2019 a'r sefyllfa ar 30 Medi 2019.	Green/Gwyrdd		Cabinet Cyngor
Cynigion ar gyfer Cyllideb 2020/2021 i'w Hymgynghori Arnynt	Cynigion ar gyfer Cyllideb 2020/2021 i'w Hymgynghori Arnynt	Green/Gwyrdd		Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
Monitro Cyllideb Mis 6	Bydd yr adroddiad yn nodi sefyllfa monitro ariannol cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â chyfrifon refeniw a chyfalaf. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi amrywiant allweddol yn seiliedig ar chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol.	Green/Gwyrdd		Cabinet
Perfformiad Ch2	Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o berfformiad y Cyngor ar gyfer Chwarter 2 o flwyddyn ariannol 2019-20, gan gynnig cyfle i'r Cabinet adolygu perfformiad, ystyried unrhyw faterion newydd, a nodi unrhyw gamau gwella angenrheidiol.	Green/Gwyrdd		Cabinet
Tai a Chymunedau				
Strategaeth Llyfrgelloedd Cyngor Caerdydd - cyflawni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad 'Adeiladau Cymunedau Gwydn Trwy Ddatblygiad Pellach Hybiau Cymunedol' ym mis Mai 2018. Yn yr adroddiad, cynigwyd dull newydd o ddarparu gwasanaethau llyfrgell, yn adeiladu ar arfer gorau ac i gyflwyno gwasanaethau llyfrgell o safon a digwyddiadau ledled y ddinas. Bydd y strategaeth hon yn dangos sut bydd Cyngor Caerdydd yn bodloni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac yn adeiladu ar y prif themâu a grybwyllir yn yr adroddiad hwnnw, yn cynnwys: • Darparu a rheoli llyfrau' • Treftadaeth, diwylliant a gwybodaeth; • Llythrennedd plant a chymorth â'r cwricwlwm; • Creadigrwydd digidol; • Ymgysylltu â'r gymuned a lles.	Amber/Ambr		Cabinet
Gwiriadau Seiliedig ar Risg Budd-dal Tai	Yn dilyn peilot llwyddiannus, cynigir y dylid cyflwyno Gwiriadau Seiliedig ar Risgiau ar gyfer bob hawliad. Mae Gwiriadau Seiliedig ar Risgiau yn newid y ffordd y mae hawliadau budd-dal tai yn cael eu gwirio, gan leihau faint o dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer	Green/Gwyrdd		Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	achosion risg isel tra'n sicrhau bod mwy o sylw'n cael ei roi i wirio hawliadau risg uchel.			

Buddsoddi a Datblygu

Swyddfa Graidd - Achos Busnes Llawn	Bydd yr adroddiad yn cyflwyno'r achos busnes llawn ar gyfer y Swyddfa Graidd newydd ar gyfer y Cyngor	Amber/Ambr		Cabinet
Penawdau'r Telerau Dumballs Rd	Bydd yr adroddiad yn cytuno ar Benawdau'r Telerau gyda'r datblygwr o ran mynd â'r uwchgynllun yn ei flaen ar gyfer datblygiad Dumballs Rd.	Amber/Ambr		Cabinet
Strategaeth Ddatblygiad Llanrhymni	Bydd yr adroddiad yn amlinellu strategaeth ddatblygiad ar gyfer Llanrhymni i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithgarwch economaidd yn yr ardal.	Amber/Ambr		Cabinet

Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant

Strategaeth Gosod Ffioedd Cartrefi Gofal Pobl H?n 2019-2024	Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion wedi bod yn cynnal ymarfer i ddeall cost arferol gofal y Gwasanaethau Gofal Preswyl a Nyrsio Pobl Hŷn yng Nghaerdydd. Diben yr ymarfer hwn yw llunio strategaeth gosod ffioedd 3 blynedd ar gyfer darpariaeth Cartrefi Gofal Pobl Hŷn. Mae'r adroddiad hwn i'r Cabinet yn nodi'r sail resymegol ar y fethodoleg a ddefnyddir i gyflawni'r gwaith a sut oedd gweithredwyr cyfredol yn rhan o'r broses o sefydlu gwir gost gofal Bydd y Cabinet yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod strategaeth ffioedd ar gyfer cartrefi gofal.	Amber/Ambr		Cabinet
Addasiadau Cyfleuster Anabl - adolygu canlyniadau i unigolion a gwerth	Fel rhan o'r broses gosod cyllideb cyfalaf ar gyfer 2019/20, dyrannodd y Cyngor £853,000 yn ystod 2019/20 ar gyfer addasiadau. Roedd hyn ar gyfer un flwyddyn yn unig, gydag unrhyw geisiadau ar gyfer y dyfodol "yn destun adolygiad i'w	Amber/Ambr		Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
am arian	ystyried gan y Cabinet mewn perthynas ag effaith gwariant mewn meysydd eraill o ganlyniad i fuddsoddiad mewn addasiadau. Bydd yr effaith ar alw a fforddiadwyedd gwariant o ganlyniad i newidiadau mewn polisïau LIC a'r Cyngor yn y maes hwn hefyd yn cael ei ystyried" Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni adolygiad llawn o wariant ac yn gwerthuso'r effaith i unigolion ac osgoi costau o'r buddsoddiad ataliol hwn. Bydd hefyd yn ystyried ac yn argymell newidiadau posibl i leihau'r effaith ar wariant.			

Rhagfyr 2019

Diwylliant a Hamdden

Yr Eglwys Norwyaidd	Bydd yr adroddiad yn cytuno ar y camau nesaf ar gyfer sicrhau partner i fuddsoddi yn yr Eglwys Norwyaidd a'i gweithredu.	Amber/Amb r		Cabinet

Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Ysgolion yr 21ain ganrif (Band B): Ailddatblygu ac ehangu Ysgol Uwchradd Cathays	Yn ystod ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2017 ystyriodd Cyngor y Cabinet adroddiad oedd yn nodi cynlluniau blaenoriaethu'r Cyngor i'w cynnal yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B Caerdydd. Diben yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar gynigion i ddatblygu safle presennol ysgol Uwchradd Cathays, yn unol â chynlluniau blaenoriaethu Band B.	Amber/Amb r		Cabinet

Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Cofrestr Risgiau Corfforaethol -	Bydd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. Y tro diwethaf i'r Cabinet weld y Gofrestr Risgiau	Amber/Amb r		Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
Adolygiad Canol y Flwyddyn 2019/20	Corfforaethol (CRC) oedd mewn cyfarfod Cabinet ym mis Gorffennaf 2019. Mae uwch swyddogion yn adolygu'r ddogfen yn chwarterol a'r Cabinet unwaith bob 6 mis. Mae perchnogion Risg Corfforaethol ar lefel Cyfarwyddwr, ac maent oll yn cyfrannu at adolygu'r ddogfen.			
Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor	Mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i gytuno i'r sylfaen Dreth Gyngor erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r penderfyniad wedi'i ddirprwyo i'r Cabinet.	Green/Gwyrdd		Cabinet

Buddsoddi a Datblygu

Prif Gynlllun Ardal y Gamlas	Uwchgynllun newydd ar gyfer datblygu Ardal y Gamlas yng nghanol y ddinas yn y dyfodol i ddenu buddsoddiad ac ehangu cynnig masnachol canol y ddinas.	Amber/Ambr		Cabinet
Arena Dan Do	Cymeradwyo'r cynllun busnes ar gyfer adeiladu Arena Dan Do	Amber/Ambr		Cabinet

Ionawr 2020

Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant

Cynllun Strategol i Ddarparu Canlyniadau Rhagorol ar gyfer Oedolion	Bydd y papur hwn yn gynllun strategol 3 blynedd i ddod â chanlyniadau ardderchog yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Bydd yn nodi sut bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn datblygu camau ataliol, gwella ymarfer, cynorthwyo a datblygu'r gweithlu, gwella ystod y cynigion gwasanaeth a gwella perfformiad.	Amber/Ambr		Cabinet

Chwefror 2020

Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
Adroddiad y Cyllid	Argymell bod cynigion cyllidebol y Cabinet yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor ynghyd â'r argymhellion statudol angenrheidiol.	Red/Coch		Cabinet Cyngor
Monitro Perfformiad Ch3	Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o berfformiad y Cyngor ar gyfer Chwarter 3 o flwyddyn ariannol 2019-20, gan gynnig cyfle i'r Cabinet adolygu perfformiad, ystyried unrhyw faterion newydd, a nodi unrhyw gamau gwella angenrheidiol.	Green/Gwyrdd		Cabinet
Monitro'r Gyllideb - Adroddiad Mis 9	Bydd yr adroddiad yn nodi sefyllfa monitro ariannol cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â chyfrifon refeniw a chyfalaf. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi amrywiant allweddol yn seiliedig ar naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol.	Green/Gwyrdd		Cabinet